LIVING STREETS

DEWCH I NI GERDDED I'R YSGOL

# Llysgennad WOW Ffurflen Gais

CA2

## BETH YW LLYSGENNAD WOW?

Mae Llysgenhadon WOW yn helpu i redeg WOW yn eu hysgol ac yn annog disgyblion i deithio i'r ysgol mewn ffordd lesol pryd bynnag y gallan nhw. Mae Llysgenhadon WOW yn rhoi gwybod i gyd-ddisgyblion pam mae cerdded/troelli, seiclo, sgwtera neu barcio a cherdded mor wych. Maen nhw hefyd yn gwneud swyddi i helpu athrawon i redeg WOW. Gall hyn olygu mynd o gwmpas dosbarthiadau yn atgoffa disgyblion i gofnodi ar Draciwr Teithio WOW neu ddosbarthu bathodynnau WOW ar ddiwedd bob mis.

**Mae Llysgennad WOW yn rhywun sydd:**

- Am helpu pawb yn ei ysgol i fod yn weithgar ac yn iach
- Yn fodlon gweithio'n galed i helpu'r amgylchedd
- Yn onest ac yn trin pawb yn deg

**Cyn i chi lenwi'r ffurflen gais hon, darllenwch y ddogfen disgrifiad swydd a ddarperir yn y pecyn cymorth. Bydd yn eich helpu i gael gwell syniad o'r hyn y mae'r rôl arbennig hon yn ei olygu.**



## FFURFLEN GAIS

**EICH ENW**

Enw ........................................

**EICH DOSBARTH**

Dosbarth ........................................

Atebwch y cwestiynau hyn gan esbonio pam y byddech chi'n Llysgennad WOW da.

1. **MAE PLENTYN YN EICH YSGOL NAD YW'N HOFFI CERDDED I'R YSGOL. DYMA'R HYN A OEDD GANDDO I'W DDWEUD: 'RYDW I BOB AMSER YN GYRRU I'R YSGOL GYDA FY CHWAER FACH GAN EI FOD YN HAWS. MAE FY CHWAER FACH YN ARAF YN CERDDED A DYDW I DDIM YN HOFFI GORFOD AROS IDDI DDAL I FYNY PAN FYDDA I'N CYRRAEDD CORNEL.'**
   Sut fyddech chi'n ei berswadio i roi cynnig ar deithio llesol (cerdded/troelli, sgwtera, seiclo neu barcio a cherdded) weithiau?

**Dylech chi roi cynnig ar deithio llesol oherwydd...**

**2. ALLWCH CHI ROI TRI RHESWM PAM RYDYCH CHI'N MEDDWL Y BYDDECH CH'N DDA AR GYFER RÔL LLYSGENNAD WOW?**

1. Rheswm 1 ........................................
2. Rheswm 2 ........................................
3. Rheswm 3 ........................................

**3. TICIWCH Y BLYCHAU OS YDYCH CHI'N UNRHYW UN O'R CANLYNOL, NEU WEDI BOD:**

- [ ] CYNRYCHIOLYDD CYNGOR YSGOL
- [ ] RHYFELWR ECO
- [ ] MONITOR CYFEILLGARWCH
- [ ] ARALL (NODWCH) Arall ........................................

## GWYBODAETH I RIENI/GOFALWYR



## MAE EICH PLENTYN WEDI'I WAHODD I WNEUD CAIS AR GYFER RÔL BWYSIG LLYSGENNAD WOW YN EI YSGOL.

Caiff WOW – yr her cerdded i'r ysgol ei rhedeg gan Living Streets, elusen y DU dros gerdded bob dydd. Rydyn ni'n gweithio gyda dros 1,500 o ysgolion a thua hanner miliwn o ddisgyblion bob blwyddyn i annog mwy o deithio llesol i'r ysgol.

Mae WOW yn fenter sy'n cael ei harwain gan ddisgyblion lle mae'r plant yn defnyddio dull hunanadrodd i nodi sut maen nhw'n cyrraedd yr ysgol bob dydd. Mae'r rhai hynny sy'n teithio mewn ffordd gynaliadwy (cerdded/troelli, seiclo, sgwtera neu barcio a cherdded) o leiaf unwaith yr wythnos am fis yn ennill bathodyn arbennig. Mae mor hawdd â hynny!

Oeddech chi'n gwybod bod y daith i'r ysgol ac oddi yno yn gyfrifol am hanner miliwn tunnell o allyriadau CO2 yn y DU yn flynyddol? Mae hynny'n fwy na rhai gwledydd bach! Mae cerdded i'r ysgol yn ffordd wych o helpu'r amgylchedd, ac mae hefyd yn helpu plant i deimlo'n hapusach ac yn iachach a chyrraedd yr ysgol wedi eu hadfywio ac yn barod i ddysgu.

Os yw eich plentyn yn llwyddiannus yn ei gais i ddod yn Llysgennad WOW Living Streets, bydd yn chwarae rôl allweddol wrth helpu'r ysgol i gyflwyno'r her ac annog eraill i deithio mewn ffordd fwy cynaliadwy.

**Os hoffech chi ddysgu mwy am WOW, ein mentrau cerdded i'r ysgol eraill a'n gwaith ehangach fel elusen, gallwch ymweld â'n gwefan a chofrestru ar gyfer ein e-newyddion.**



**LIVINGSTREETS.ORG.UK/WOWAMBASSADOR**

**Cymerwch ran ar y cyfryngau cymdeithasol: #LLYSGENNADWOW**

**X @LIVINGSTREETS   f LIVINGSTREETSUK   Instagram LIVINGSTREETS**

Mae Living Streets (The Pedestrians' Association) yn Elusen Gofrestredig Rhif. 1108448 (Cymru a Lloger) a SC039808 (Yr Alban), Cwmni Cyfyngedig trwy Warant (Cymru a Lloger), Rhif Cofrestru Cwmni), 5368409.